**Adroddiad i'r:** Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 24 Tachwedd 2020

Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cynghorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy

Awdur yr Adroddiad Emily Jones-Davies

**Teitl** Llys Awelon Cam 2

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cais i ryddhau cyfalaf a gytunwyd arno eisoes o £5 miliwn er mwyn cyfrannu at adeiladu cam 2 Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon, gyda'n partneriaid Grŵp Cynefin, fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad i ryddhau hyd at £5 miliwn i gyfrannu tuag at y costau adeiladu mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin.

2.2 Ar ôl SIG ar 26 Medi, bydd yr adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r les, arbedion, a newid hinsawdd .

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'u hystyriaethau.

3.2. Bod y pwyllgor yn cadarnhau eu bod yn cytuno i ryddhau y cyllid cyfalaf o £5 miliwn a gytunwyd arno'n flaenorol.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn 2010, comisiynodd Sir Ddinbych Uned Gofal Ychwanegol 21 uned ar y cyd â Grŵp Cynefin. Mae'r cynllun yn ffinio â Chartref Gofal Awelon ac yn rhannu cyfleusterau cymunol.

4.2 Yn 2020 caewyd Cartref Gofal Awelon, yn ogystal â Chanolfan Awelon, er mwyn paratoi at 2il gam y cynllun, sy'n cynnwys 35 uned ychwanegol (17 x 1 ystafell wely, 17 x 2 ystafell wely & ac un ystafell ymwelwyr). Ceisiwyd caniatâd cynllunio i gynnwys cyfleusterau cymunol ac adnodd cymunedol.

4.3 Bydd y les gyfredol ar gyfer cam 1 y datblygiad yn cael ei dirwyn i ben, a les hirdymor newydd yn cael ei chyhoeddi i Grŵp Cynefin ar gyfer y safle cyfan (y ddau gam).

4.4 Er mwyn i'r gwaith cyn-archwiliadol ddigwydd, mae les byr dymor yn cael ei chreu gan Gyngor Sir Ddinbych gyda Grŵp Cynefin. Bydd hyn yn rhyddhau Cyngor Sir Ddinbych o'i rwymedigaethau ar gyfer yr eiddo gwag.

4.5 Mae creu'r proffil ynni isaf posib er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd wrth galon y dull cynaliadwy o weithio. Bydd y prosiect yn gweithredu dull 'deunydd yn gyntaf' gyda lefelau uchel o inswleiddio ac awyru naturiol, a bydd yn anelu am raddfa BREEAM Ardderchog

4.6 Er mwyn cyflawni graddfa BREEAM bydd yn rhaid i berchennog yr adeilad brofi i'r Asesydd (Sefydliad Ymchwil Adeiladu) eu bod wedi defnyddio dull cynaliadwy o weithredu o safbwynt caffael, y bydd yn monitro defnydd o ynni a dŵr cyn ac ar ôl y cyfnod adeiladu, eu bod wedi cael y deunyddiau mewn dull cyfrifol, a lliniaru unrhyw ddatblygiad ecolegol.

4.7 Drwy eiriol dull cadarn, lle bynnag bo'n bosib bydd deunyddiau'n cael eu dewis yn ofalus am eu nodweddion cynaliadwyedd gwyrdd, oes hir, ac ymddangosiad cadarnhaol. Bydd cyfuno elfennau yn ceisio cyflawni'r gwerthoedd-U isaf posib, fel a ganlyn:

- Lloriau isaf crog trawst a bloc wedi ei inswleiddio = 0.11
- Ffenestri tair haen = 0.7
- Waliau cerrig allanol wedi eu rendro = 0.12
- To trawstiau gyda PV Integredig = 0.08/0.09

4.8 Bydd y cytundeb partneriaeth yn nodi'n glir na fydd cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych yn fwy na £5 miliwn. Bydd angen i Grŵp Cynefin adolygu maint y prosiect er mwyn sicrhau fod costau o fewn y gyllideb os bydd prisiau tendr yn fwy na'r amcangyfrifon gwreiddiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae darparu gwasanaethau byw â chymorth ar gyfer Pobl Hŷn yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol bresennol fod pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Bydd hefyd yn cefnogi pobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Yn dilyn cau Cartref Preswyl Awelon, bydd rhan o'r arbedion costau yn cael eu defnyddio i ariannu'r tîm Staff Gofal Cartref, sydd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn Llys Awelon (Cam 1) Bydd y cyllidebau Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn elwa o arbedion trydan, nwy a dŵr (£42,000).

6.2 Yn y tymor canolig, mae potensial gan y datblygiad hwn i gynhyrchu arbedion yn y cyllidebau Gofal Yn Y Gymuned, gan fod dewis gan y dinasyddion i symud i ddarpariaeth Tai â Gofal Ychwanegol (gyda darpariaeth gofal cymdeithasol ar y safle) yn hytrach na byw mewn cartref preswyl wedi ei gyllido gan yr Awdurdod Lleol (lle mae cost lleoliad preswyl fesul wythnos mewn lleoliad Gofal Cartref Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn £640.08 yr wythnos). Mae tabl yn dangos yr arbedion hyn a cost a budd y buddsoddiad £5 miliwn yn cael ei ddangos yn Atodiad 1.

6.3 Mae cynnydd mewn mewnbwn gan y tîm Cyfreithiol a'r tîm Prisio ac Ystadau wedi golygu fod yn rhaid trafod gyda Grŵp Cynefin ynglŷn â'r Cytundeb Bwrdd Partneriaeth ac Amodau'r Les.

# 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gwblhau ynghlwm fel Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

7.2 Yn gyffredinol mae'r effaith ar y 7 nod lles yn gweld 6 chanlyniad positif ac 1 niwtral. Bydd angen monitro elfennau o amcanion cymunedau cryf a chydlynus, er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith orau posib ar gyfer dyfodol yr amgylchedd – naturiol ac adeiledig – ac i sicrhau ein bod yn cynnal cyfranogiad cymunedol.

# 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun a'r grŵp tasg a gorffen wedi eu diweddaru yn rheolaidd.

8.2 Ymgynghorwyd a chyfathrebwyd gyda'r holl fudd-ddeiliaid ynglŷn â chau'r gwasanaethau presennol. Roedd hyn yn cynnwys Cynghorwyr, pwyllgor Canolfan Awelon, trigolion, teuluoedd, staff a'r gymuned yn ehangach.

# 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Roedd cyllid ar gyfer y cais yn ffurfio rhan o'r Cynllun Corfforaethol cyn yr un diwethaf ac felly mae'n ddiogel ac ni fydd yn effeithio ar fforddiadwyedd cynlluniau eraill. Trafodwyd y cynnig ei hun mewn Grŵp Rheoli Asedau y llynedd a chytunwyd y byddai'r Cyngor yn dyfarnu les i Grŵp Cynefin yn amodol ar ddatblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ar y safle, y byddai angen cyfraniad ariannol ychwanegol tuag ato gan y Cyngor. Mae'r cynnig hefyd wedi bod yn y Grwp Buddsoddi Strategol, oedd yn argymell cymeradwyo'r cais. Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi mewn egwyddor gan y bydd yn helpu i leihau pwysau yn y dyfodol.

# 10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

11.1 Mae Covid-19 yn golygu fod oedi sylweddol wedi bod o safbwynt y prosiect. Mae cynllun cyfathrebu clir bellach yn ei le sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

11.2 Mae'r broses o gau Awelon a'r Ganolfan wedi wynebu peth pwysau gwleidyddol. Os bydd yr ail gam hwn yn aflwyddiannus bydd niwed i enw da Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r tîm cyfathrebu corfforaethol wedi cytuno ar gynllun cyfathrebu.

# 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Cynlluniau Byw yn y Gymuned wedi'u cefnogi gan y Sir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014.

11.2 Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ddinbych.

.